


Porth Clais

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



Porth Clais

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr

Pellter: 3.4 milltir (5.5 km)

Cludiant cyhoeddus: *Celtic Coaster 403 (*tymhorol, galw a teithio), Parcio a Theithio Tyddewi (tymhorol).

Cyfeirnod map: SM739237

Harbwr naturiol gwych Porth Clais oedd porthladd Tyddewi am ganrifoedd.

Cerfiwyd y dyffryn (ria) gan ddŵr tawdd rhewlifol ac fe'i boddwyd gan y codiad yn lefel y môr ar ddiwedd yr Oes Iâ 12,000 mlynedd yn ôl. Roedd Llychlynwyr yn gwybod am ei hangorfa gysgodol debyg i ffordd dros 1,000 o flynyddoedd yn ôl ac roedd pererinion heddychlon a ddaeth i Tyddewi i chwilio am adnewyddiad ysbrydol hefyd yn gwybod amdani.

Yma, dywedir i Ddewi Sant gael ei fedyddio gan y Sant Elfis, Esgob Munster. Yn ystod y bedydd, llifodd dŵr o greigiau gerllaw gan dasgu i lygaid mynach dall a oedd yn dal y baban Dewi, ac fe gafodd y mynach ei olwg yn ôl. Mae'r ffynnon hon - Ffynnon Dewi - wrth ymyl y maes parcio ar dir preifat.

Hyd nes yn gynnar yn yr 20fed ganrif, roedd llongau masnach yn y porthladd prysur yn cludo glo, pren a chalchfaen ac yn allforio cynnyrch fferm a brethyn.

Mae olion Capel y Santes Non yn agos at y man lle dywedwyd i Dewi gael ei eni. Mam Dewi oedd Non, ac roedd yn ferch i bennaeth lleol.

Yn ôl y chwedl, ganwyd Dewi o dan olion hen gromlech, ar ôl i Non gael ei throï allan am fod yn feichiog a

hithau heb briodi. Ar adeg genedigaeth Dewi gwelwyd storom ofnadwy ac fe darddodd llygad ffynnon o'r ddaear. Mae ffynnon y Santes Non yn dal i lifo heddiw a dywedir bod ganddi bŵer i iachau.

Erbyn hyn mae'r tŷ Fictoraidd gerllaw yn lloches i ddiodefwyr, ac adeiladwyd Capel y Forwyn gerllaw yn 1934 yn arddull capel pererindod canoloesol.

Caiff fferm Porth Lisgi ei enw gan y bae gerllaw. Roedd Lisgi yn ysbeiliwr o Iwerddon y dywedir ei fod wedi dal arglwydd rhyfel arall o Wyddel, Boia, ac wedi torri ei ben.

Dywedwyd bod gwersyllfan Boia ar fryn gerllaw a elwir heddiw yn Clegyr Boia. Hawliodd Boia ddyffryn Alun ble sefydlodd Dewi ei fynachdy. Anfonodd Boia ei ryfelwyr i droi'r sant a'i ddilynwyr allan ond nid oeddent yn llwyddiannus; yn y diwedd, trodd Boia at Gristnogaeth ei hun.

Mae Phil Lees, Uwch Barcmon Sector y Gorllewin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: Dyma daith wych heb unrhyw sticlau ac mae wedi'i thrwytho yn hanes cyfoethog y penrhyn hudolus hwn. Mae ar ei gorau yn y Gwanwyn pan fydd blodau'r arfordir rhwng Porth Clais a St Non's yn gyfoeth o liw, ac yn troi'r clogwyni yn erddi craig gwych. Chwiliwch am y gigfran, gwylan y graig a'r frân goesgoch wrth iddyn nhw rodio uwchben y clogwyni. Ar ddiwrnodau clir mae yna olygfeydd gwych ar draws Bae Sant Ffraid at Benrhyn Marloes a Sgomer, ac i nythle'r gwylanwyddau yn Gwales, sy'n ymwthio allan fel bynen eisin ar y gorwel.



© David Evans www.pemcoastphotos.com